# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 23 Mai 2017

Amser y cyfarfod: 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4292

# 71

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## Datganiad ar yr ymosodiad ym Manceinion

Dechreuodd yr eitem am 12.30

Galwodd y Llywydd ar y Prif Weinidog cyn arwain y Cynulliad mewn munud o dawelwch.

## 1 Teyrngedau i'r cyn Brif Weinidog Rhodri Morgan

Dechreuodd yr eitem am 12.34

Galwodd y Llywydd ar y Prif Weinidog, Arweinwyr y Pleidiau eraill ac Aelodau i wneud cyfraniadau. Yn dilyn hynny, galwodd y Llywydd ar Julie Morgan i siarad, cyn arwain y Cynulliad mewn munud o dawelwch.

Am 13.53, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 12 munud. Cafodd y gloch ei chanu 5 munud cyn ailgynnull.

## 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 14.05

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 4 a 6 – 9. Ni ofynnwyd cwestiwn 5. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.51

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i Drwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

Dechreuodd yr eitem am 15.05

## 5 GOHIRIWYD – Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Plant yn Gyntaf / Children First

## 6 SYMUDWYD I 24 MAI – Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Asesu ar gyfer Dysgu – dull gwahanol yng Nghymru

## 7 SYMUDWYD I 24 MAI – Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Ymgynghoriad ar God Erlyn Llywodraeth Cymru

## 8 Dadl: Presgripsiynu Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 15.52

**NDM6314** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod presgripsiynu cymdeithasol yn ddull ymyrraeth pwysig sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru;

2. Yn ystyried y blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol ymhellach ledled Cymru; a

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i dreialu dull cenedlaethol o bresgripsiynu cymdeithasol mewn perthynas ag iechyd meddwl.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi diffiniad y Kings Fund o bresgripsiynu cymdeithasol.

**Derbyniwyd Gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM6314** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod presgripsiynu cymdeithasol yn ddull ymyrraeth pwysig sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru;

2. Yn ystyried y blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol ymhellach ledled Cymru;

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i dreialu dull cenedlaethol o bresgripsiynu cymdeithasol mewn perthynas ag iechyd meddwl; a

4. Yn nodi diffiniad y Kings Fund o bresgripsiynu cymdeithasol.

**Derbynwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.37

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 24 Mai 2017**